Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

Dull gweithredu newydd o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned



Ymgynghoriad

Dogfen ymgynghori Rhif: 057/2008
Dyddiad cyhoeddi: 29 Medi 2008
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Rhagfyr 2008

Dull gweithredu newydd o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Cynulleidfa

Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru, Penaethiaid Ysgolion Uwchradd â Chweched Dosbarth, Awdurdodau Addysg Lleol, Rhwydweithiau 14-19, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaeth Ieuenctid statudol a gwirfoddol, Estyn, Sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr ym maes dysgu seiliedig ar waith, sefydliadau a fforymau cyflogwyr, Undebau Llafur, Cynghorau Sgiliau Sector, Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, Gwasanaethau Carchardai a Phrawf, Timau Troseddau Ieuenctid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori ar bolisi drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae'n rhan o gyfres o bapurau wedi'u seilio ar thema sy'n mynd i'r afael â materion a nodwyd yn Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.

Camau i'w cymryd

Dylid anfon ymatebion i'r ddogfen ymgynghori ddrafft hon, erbyn 31 Rhagfyr 2008, at Alison Bryant neu Trish Hopkins yn y cyfeiriad isod neu drwy'r e-bost i learning.policy@wales.gsi.gov.uk.

Rhagor o wybodaeth

Alison Bryant
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Ffôn: 01443 663893
Ffacs: 01443 663653

Trish Hopkins
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tŷ'r Llyn, Parc Busnes Waterside
Clos Llyn Cwm
Parc Menter Abertawe
Abertawe SA6 8AH
Ffôn: 01792 765956
Ffacs: 01792 765803

E-bost: learning.policy@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o wybodaeth a chopïau ychwanegol gan: Alison Bryant neu Trish Hopkins (gweler y manylion cyswllt uchod). Mae'r ddogfen hon ar gael ar y rhyngrwyd hefyd yn: http://newydd.cymru.gov.uk/consultations/?lang=cy a gellir ei chopïo o'r fan honno.

Dogfennau cysylltiedig

Cymru'n Un
Addewid a Chyflawniad – yr adolygiad annibynnol o weledigaeth a phwrpas addysg bellach
Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 4753 9

© Hawlfraint y Goron Medi 2008

CMK-22-07-304
D1450809

Rhagair

Mae *Cymru'n Un: rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru* (2007) yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu'r maes dysgu i oedolion. Nod y polisi strategol hwn yw gwella'r modd rydym yn cynllunio, yn ariannu ac yn darparu cyfleoedd dysgu i oedolion yn y gymuned, gan arwain at fuddiannau amlwg i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymatebolrwydd i anghenion dysgwyr unigol, cymunedau lleol a chymdeithas fodern Cymru yn fwy cyffredinol.

Mae'r ymgynghoriad ynghylch y polisi ar ddysgu oedolion yn y gymuned yn cyflwyno cynigion mewn ymateb i faterion a nodwyd yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, ein Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth. Fe'i gosodir yn gadarn yng nghyd-destun ehangach gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru am wasanaethau cyhoeddus mwy cydgysylltiedig ac ymatebol, a nodir yn *Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau* (2006).

Mae ehangder y maes dysgu oedolion yn y gymuned yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o anghenion y mae'n ymateb iddynt. Yn amlwg, mae ganddo rôl i'w chwarae o ran cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau i'w defnyddio yn y gweithle neu weithgareddau datblygu cymunedol ehangach ond mae hefyd yn darparu buddiannau sydd yr un mor werthfawr i unigolion a'u cymunedau, gan agor llwybrau a chyfleoedd dysgu newydd, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lles ac iechyd.

Mae gwerth dysgu oedolion yn y gymuned i'w weld yn ei botensial i gyrraedd unigolion a chymunedau sy'n 'agos i'r cartref', yn enwedig y rheini efallai na fyddent yn ymwneud â dysgu fel arall. Mae hyn i'w weld yn arbennig yn y cyfleoedd dysgu anffurfiol y mae'n eu cynnig. Dyma un o'r cryfderau y bwriadwn adeiladu arno drwy'r polisi hwn.

Edrychwn ymlaen at gael eich barn a'ch sylwadau ynghylch ein cynigion.

Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb Gweithredol	1
Y Prif Themâu Polisi Arfaethedig	3
Cyflwyniad	7
Adran 1: Diffiniad	11
Adran 2: Ad-drefnu	13
Adran 3: Blaenoriaethau Ariannu ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned	19
Adran 4: Safonau Ansawdd	25
Adran 5: Datblygu Cysylltiadau ar draws Agendâu Polisi	29
Atodiad A Crynodeb o'r Porth i Bolisïau	31

Crynodeb Gweithredol

Pam fod angen Polisi Newydd arnom ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn faes darpariaeth amrywiol iawn. Mae'r polisi hwn yn nodi ymateb strategol i'r materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys yr angen am ddull mwy strategol o gynllunio, darparu ac ariannu cyfleoedd dysgu i oedolion yn y gymuned. Ein nod yw annog yr arfer o ddefnyddio adnoddau cyhoeddus prin yn fwy strategol ac effeithiol drwy weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau.

Mae'r polisi hwn yn dod o dan faner *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru,* ein prif strategaeth sgiliau a chyflogaeth. Mae hefyd yn ystyried *Addewid a Chyflawniad*, sef canlyniad Adolygiad Webb o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob darparwr ym maes dysgu oedolion yn y gymuned a gefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal ag asiantaethau eraill. Ei nod yw darparu cyfeiriad clir a chyfres o gamau gweithredu ar gyfer meithrin gallu ac effeithiolrwydd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer rhai 19+ oed, nad yw'n ymdrin â galwedigaeth benodol. O ran cynllunio ac ariannu, bydd y polisi'n canolbwyntio i ddechrau ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir drwy'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac sydd wedi'i chynnig hyd yn hyn gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn bennaf. Mae’r polisi hefyd yn cydnabod bod llwybrau eraill yn arwain at gyfleoedd dysgu yn y gymuned, fel y rheini a gefnogir mewn orielau celf lleol a llyfrgelloedd.

Y Prif Themâu Polisi Arfaethedig

Mae'r polisi wedi'i seilio ar bum prif thema.

Adran 1: Diffiniad

Mae'r maes dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu sy'n ei gwneud yn anodd ei ddiffinio'n gryno. Gall y ffaith na cheir diffiniad y cytunir arno yn gyffredinol o ddysgu cymunedol ei gwneud yn anodd cynllunio ac ariannu'r math hwn o ddarpariaeth mewn modd cyson.

Cynigia'r polisi hwn y diffiniad canlynol o ddysgu oedolion yn y gymuned: ***darpariaeth ddysgu ar gyfer oedolion 19+ oed, a gynigir mewn lleoliadau cymunedol lleol ac nad yw'n canolbwyntio ar alwedigaeth benodol***. Golyga hyn y gall gynnwys, er enghraifft, darpariaeth sgiliau sylfaenol ond nid hyfforddiant a gynigir mewn rhaglenni â tharged mwy galwedigaethol.

Adran 2: Ad-drefnu

Ymateba'r polisi hwn i angen amlwg am fodel cynllunio a darparu y gellir ei gymhwyso'n gyson ledled Cymru. Gosodir ein cynigion o fewn cyd-destun ein rhaglen ehangach ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddylanwadu ar brosesau cynllunio eraill sy'n ymwneud â'r gymuned, lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn hybu synergedd rhwng elfennau'r cyd-destun cynllunio ehangach hwn lle bo hynny'n bosibl er mwyn cryfhau'r cysylltiadau â'r maes dysgu oedolion yn y gymuned a'u perthnasedd iddo. Mae'r polisi hefyd yn creu fframwaith a fydd yn caniatáu i sefydliadau trydydd sector chwarae rôl fwy strategol yn y broses o gynllunio a darparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned.

Cydnabyddwn fod trefniadau partneriaeth cryf ar gyfer darparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned wedi'u datblygu eisoes mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Rydym am adeiladu ar y datblygiad hwn mewn modd a fydd o fudd i bob oedolyn sy'n dysgu yn y gymuned. Ein bwriad yw creu Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ledled Cymru er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth hon, gan adeiladu ar enghreifftiau o arfer gorau a nodwyd.

Bydd pob Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gyfrifol am gynllunio ac ariannu'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn ardal ddaearyddol benodol. Rhagwelir y bydd y Partneriaethau'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector. Byddwn yn disgwyl i Bartneriaethau roi prosesau ar waith i ymgynghori â'u cymunedau lleol ynghylch y mathau o gyfleoedd dysgu y byddent am i'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned fynd i'r afael â hwy.

Caiff y dull gweithredu newydd ei gyflwyno fesul cam dros gyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau yn ystod hydref 2009. Caiff y broses o ariannu gweithgareddau drwy'r trefniadau newydd ei chyflwyno'n ehangach ledled Cymru o hydref 2011 ymlaen. Bydd y model yn parhau i gael ei adolygu o fewn cyd-destun unrhyw ad-drefnu

ehangach o ran addysg a hyfforddiant sy'n deillio o'n cynigion i 'Drawsnewid y Ddarpariaeth Ddysgu ar gyfer Cymru'.

Adran 3: Blaenoriaethau ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Drwy'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned, byddwn yn ariannu darpariaeth ar gyfer dysgwyr 19+ oed sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf canlynol:

- Cynrychioladol o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys cymunedau daearyddol a chymunedau buddiant.
- Ymgymryd â darpariaeth a allai eu galluogi i symud ymlaen at weithgareddau dysgu pellach neu gyflogaeth, boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol.
- Ymgymryd â darpariaeth sy'n cynnig buddiannau ehangach amlwg i unigolion neu gymunedau, megis cynhwysiant cymdeithasol neu well iechyd a lles.

Byddwn yn rhoi canllawiau i'r holl Bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar y blaenoriaethau y dylent geisio mynd i'r afael â hwy wrth gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth hon. Eir i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol yn gyntaf:

- Darpariaeth ar lefel 2 neu'n is ac sydd hefyd yn bodloni un neu ragor o'r blaenoriaethau canlynol.
- Cyfleoedd ar gyfer ymestyn cyfranogiad ymhlith grwpiau difreintiedig neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Sgiliau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill.
- Hyfforddiant datblygu fel y gellir symud ymlaen at gyflogaeth neu hyfforddiant pellach, ond nad yw'n cael ei gynnwys yn ein prif raglenni galwedigaethol.

Yn ogystal â'r uchod, byddwn yn parhau i gefnogi cyrsiau Mynediad i AU fel un o'r cymwysterau penodol a'r llwybrau cynnydd ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

Nod y polisi yw sicrhau bod y maes dysgu oedolion yn y gymuned yn gallu ymateb yn hyblyg i anghenion amrywiol grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys helpu darparwyr ym maes dysgu oedolion yn y gymuned i nodi a gweithio i oresgyn rhwystrau sy'n atal dysgwyr penodol rhag dysgu, er enghraifft dysgwyr anabl. Lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn datblygu ymateb strategol mewn achosion lle bo'r data sydd ar gael yn tynnu sylw at broblemau neu anghyfartalwch penodol ym mhatrymau cyfranogiad dysgwyr, er enghraifft mewn perthynas ag oedran neu ryw. At hynny, mae’r polisi’n cydnabod yr angen am ddull mwy strwythuredig ac ymatebol o ddarparu cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes dysgu oedolion yn y gymuned a bydd dull o'r fath yn cael ei ddatblygu.

Cydnabyddwn yr angen i gefnogi cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen at ffurfiau eraill o ddysgu neu, lle bo hynny'n berthnasol, cyflogaeth. Bydd gan y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o helpu dysgwyr i wneud cynnydd o'r fath drwy ddarparu dulliau cyflwyno mwy cydgysylltiedig a rhoi cyfleoedd iddynt symud i ddarpariaeth fwy prif ffrwd neu ddarpariaeth uwch, lle bo hynny'n briodol.

Gall cymorth ariannol ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn y gymuned ddod o amrywiaeth o ffynonellau. Yn achos dysgwyr sy'n gallu talu am y ddarpariaeth a ddewiswyd ganddynt, mae'n rhesymol disgwyl i ddarparwyr gyflwyno ffioedd ar gyfer cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned sy'n gymesur â'r costau a lefel y galw. Felly, byddwn yn gweithio o fewn y broses ehangach o ddatblygu polisi cyfraniadau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth ar gyfer y maes dysgu oedolion yn y gymuned a'r gwaith o'i ddatblygu drwy amrywiaeth o feysydd ariannu eraill a fydd y tu allan i gylch gwaith y Partneriaethau, gan gynnwys Cymunedau Nesaf a'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach. Byddwn yn archwilio'r potensial i greu mwy o synergedd rhwng y meysydd gweithgarwch a chyllid hyn sydd ar wahân.

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddarparu cyllid mwy cynaliadwy dros dymor hwy, y tu hwnt i brosiectau penodol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i'r ffordd orau o gael cyllid Ewropeaidd a'i ddefnyddio, yn ogystal â helpu darparwyr i gydweithio'n strategol i ddiwallu anghenion ehangach dysgwyr.

Adran 4: Safonau Ansawdd

Bwriedir i'r polisi hwn ategu gwelliannau cyson yn ansawdd y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Byddwn yn cyflwyno dull cydgysylltiedig o hyrwyddo a datblygu enghreifftiau presennol o arfer gorau a mynd i'r afael ag amrywiaeth o feysydd y nodwyd y gellid eu gwella.

Bydd cyflwyno'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cryfhau gwaith cynllunio strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ar lefel ardal gyfan ac yn sicrhau y caiff adnoddau eu cysylltu â blaenoriaethau penodol. Caiff rôl y Partneriaethau o ran cryfhau prosesau hunanasesu cydgysylltiedig a chynllunio ar gyfer gwelliant eu datblygu yn y tymor hwy hefyd.

Byddwn yn cryfhau rôl dysgu anffurfiol fel agwedd allweddol ar y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, gan adeiladu'n strategol ar waith Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Byddwn, felly, yn cyflwyno dull mwy cyson o fesur canlyniadau ar gyfer dysgwyr yn y math hwn o ddarpariaeth. Bydd y dull hwn hefyd yn helpu darparwyr i fodloni'r trothwyon ansawdd a bennwyd gan Estyn yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd eraill ar gyfer datblygu sgiliau a gwybodaeth staff ar bob lefel ym maes dysgu oedolion yn y gymuned, gan gynnwys darparu hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i gryfhau eu sgiliau iaith. Byddwn hefyd yn ystyried sut y byddwn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu nodi a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n codi yng nghyd-destun dysgu oedolion yn y gymuned.

Adran 5: Datblygu Cysylltiadau ar draws Agendâu Polisi

Mae'r polisi ar ddysgu oedolion yn y gymuned yn adlewyrchu nod *Creu'r Cysylltiadau*, sef sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn modd mwy cydgysylltiedig i ddarparu gwasanaethau effeithiol i ddinasyddion.

Gall y sector dysgu oedolion yn y gymuned feddu ar gysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o strategaethau a mentrau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru y tu hwnt i ddatblygu cymunedol, a dylai feddu ar gysylltiadau o'r fath. Mae ganddo rôl allweddol i'w chwarae o ran cyfrannu at flaenoriaethau polisi megis cynhwysiant cymdeithasol ac iechyd a lles. Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i ganolbwyntio ar y rôl hon a'i datblygu mewn modd mwy strwythuredig a strategol.

Cyflwyniad

Pam fod angen Polisi Newydd arnom ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

1. Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn faes darpariaeth amrywiol iawn, sydd yr un mor amrywiol â'r dysgwyr y mae'n eu denu. Yn ôl ei natur, mae ganddo gysylltiadau ag amrywiaeth eang o agendâu allweddol, gan gynnwys iechyd a lles, yn ogystal â'r broses o ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd. Mae ganddo hanes hir hefyd o fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr efallai na fyddent yn cael eu diwallu fel arall drwy weithgareddau dysgu mwy prif ffrwd. Fodd bynnag, mae perygl y bydd ymestyn adnoddau prin i ormod o gyfeiriadau yn tanseilio'i effeithiolrwydd wrth ddiwallu anghenion o'r fath.

2. Dengys gwaith ymchwil a thrafodaethau â rhanddeiliaid y cydnabyddir yn eang bod angen dull mwy strategol o gynllunio, darparu ac ariannu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned[1]. Ategir hyn gan dystiolaeth gan Estyn sy'n dangos bod diffyg polisi cenedlaethol clir, a chynllunio strategol ar sail ddaearyddol, wedi arwain at brosesau cyflwyno tameidiog, dyblygu ymdrechion a dysgu cymunedol o ansawdd amrywiol[2]. Nod ein polisi arfaethedig yw mynd i'r afael â'r materion hyn drwy adeiladu ar feysydd gwaith presennol, yn ogystal â chyflwyno rhai newydd.

3. Rydym am ddarparu dull mwy cydgysylltiedig ym maes dysgu oedolion yn y gymuned sy'n amlinellu ymateb strategol i'r materion canlynol:

- Ariennir dysgu oedolion yn y gymuned drwy amryw o ffynonellau sydd heb gysylltiadau amlwg yn aml iawn.
- Ni chaiff rôl sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol ('y trydydd sector') o ran comisiynu, trafod a darparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned ei chydnabod yn aml iawn ac nid yw mor integredig ag y gallai fod ychwaith.
- Mae angen mwy o eglurder ynghylch rôl gwaith dysgu anffurfiol ym maes dysgu oedolion yn y gymuned.
- Ceir materion o ran ansawdd a datblygu staff sy'n benodol i ddysgu oedolion yn y gymuned.
- Mae'r data ynghylch yr hyn a ariennir fel dysgu oedolion yn y gymuned yn anghyson ac yn anghyflawn yn aml iawn.
- Mae dosbarthiad darpariaeth o ansawdd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yn anwastad ledled Cymru.

4. Hefyd, adlewyrcha'r polisi yr angen i'r maes dysgu oedolion yn y gymuned ymateb i amgylchedd polisi sy'n newid. *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yw ein prif strategaeth sgiliau a chyflogaeth ac mae'r polisi dysgu oedolion yn y gymuned yn dod o dan faner y strategaeth hon. Wrth ddrafftio'r polisi, rydym wedi ystyried *Addewid a Chyflawniad*: yr adroddiad ar Adolygiad Webb o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'r polisi hefyd yn darparu sail ar gyfer cryfhau'r

[1] Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddysgu oedolion a dysgu cymunedol - Persbectif NIACE Dysgu Cymru, 2007

[2] Ehangu Cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion: Arolwg o arfer gorau, Estyn, 2003

cysylltiadau strategol â strategaethau eraill perthnasol Llywodraeth y Cynulliad, megis *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfrif*, a'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn*. Rydym yn cydnabod y rôl allweddol y gall dysgu oedolion yn y gymuned ei chwarae o ran rhoi sgiliau i unigolion a fydd yn eu galluogi i barhau i fod yn rhan o'r gweithlu neu ailymuno â'r gweithlu. Mae hefyd yn adeiladu ar y buddiannau a'r cyfleoedd ehangach y gall dysgu oedolion yn y gymuned eu cyflwyno i unigolion a'u cymunedau lleol.

5. Bydd y polisi yn adeiladu ar waith Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, sy'n darparu fframwaith ar gyfer cydnabod cyflawniad sy'n hollol briodol ar gyfer dysgu oedolion a dysgu cymunedol[3]. Yng Nghymru, mae gennym dros 20 mlynedd o gyflawniad cydnabyddedig cyfoethog ac amrywiol sy'n arwain at ddyfarnu credydau. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i gefnogi'r arfer o gydnabod cyflawniad a galluogi cynnydd.

6. Ein nod yw annog yr arfer o ddefnyddio adnoddau cyhoeddus prin yn fwy strategol ac effeithiol drwy weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau. Bydd mynd ati'n fwy strategol i dargedu cyllid cyhoeddus ar gyfer y maes dysgu oedolion yn y gymuned at flaenoriaethau polisi penodol yn golygu y bydd llai o bwyslais ar flaenoriaethau eraill. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch yr hyn y byddwn yn ei ariannu drwy adnoddau cyhoeddus ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Cwmpas y Polisi hwn

7. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob darparwr ym maes dysgu oedolion yn y gymuned a gefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal ag asiantaethau eraill. Nod y polisi yw darparu cyfeiriad clir a chyfres o gamau gweithredu ar gyfer meithrin gallu ac effeithiolrwydd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer rhai 19+ oed, nad yw'n ymdrin â galwedigaeth benodol. O ran cynllunio ac ariannu, bydd y polisi'n canolbwyntio i ddechrau ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir drwy'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac sydd wedi'i chynnig hyd yn hyn gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn bennaf. Fodd bynnag, cydnabu'r polisi hefyd bod llwybrau eraill yn arwain at gyfleoedd dysgu yn y gymuned, fel y rheini a gefnogir mewn orielau celf lleol a llyfrgelloedd gan Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (CyMAL), ein His-adran Noddi ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Er nad y rhain yw ffocws uniongyrchol y cynigion cynllunio ac ariannu a gyflwynir yn Adran 3, rydym yn ceisio datblygu cysylltiadau strategol â'r meysydd gweithgarwch hyn drwy'r polisi dysgu oedolion yn y gymuned.

8. Mae'r ystadegau canlynol yn rhoi braslun o'r ddarpariaeth bresennol o ran cyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned a gynigir gan awdurdodau lleol:

- Yn 2006/07, cofrestrodd 67,675 ar raglenni dysgu cymunedol AALlau.
- Y rhai mwyaf poblogaidd oedd Astudiaethau Diwylliannol (27% o'r ddarpariaeth), Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (21%), Technoleg Gwybodaeth (TG) (19%), Celf a Chrefft (18%) a Gofal/Sgiliau Sylfaenol (17%).

[3]Cynllun gweithredu, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, 2003

- roedd ychydig dros hanner y rhai a gofrestrodd (51%) yn ddysgwyr dros 50 oed;
- roedd 6% o'r dysgwyr yn cynrychioli grwpiau o bobl Dduon, grwpiau Asiaidd, grwpiau cymysg a grwpiau eraill;
- roedd 8% o'r dysgwyr yn anabl;
- roedd 73% o'r dysgwyr yn fenywod a 27% yn ddynion[4].

9. At hynny, ni ellir gwahanu dysgu oedolion yn y gymuned yn gyfan gwbl oddi wrth fentrau cymunedol eraill sy'n ceisio cryfhau a gwella adnoddau cymdeithasol cymunedau lleol. Er mwyn sicrhau bod y broses o gynllunio a darparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yn tyfu'n fwy strategol mewn gwirionedd, mae angen i ni ddatblygu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a chyfannol mewn perthynas â'r meysydd cyllid a gweithgarwch gwahanol hyn. Mae'r polisi hwn yn gam cyntaf tuag at ddatblygu cysylltiadau mwy strategol rhwng dysgu oedolion yn y gymuned a meysydd polisi cysylltiedig megis datblygu cymunedol, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau a gaiff eu harwain a'u cefnogi gan sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr dysgu.

Beth y gellir ei ystyried yn llwyddiant?

10. Rydym am weld y canlyniadau canlynol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned:

- Eglurder ynghylch yr hyn a gaiff ei gynllunio a'i ariannu fel dysgu oedolion yn y gymuned.
- Model cynllunio a darparu effeithiol a chyson.
- Mynediad i ddysgwyr i ddarpariaeth o ansawdd ym mhob ardal yng Nghymru.
- Dull mwy integredig o gynllunio'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a datblygiadau cymunedol cysylltiedig.
- Dulliau cyson o fesur canlyniadau dysgwyr.
- Rôl glir ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.
- Fframwaith gwella a sicrhau ansawdd effeithiol.

11. Dim ond drwy gefnogi gwaith partneriaeth mwy effeithiol rhwng pawb sydd â budd mewn gwella'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned y gallwn gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae hyn yn cynnwys holl Adrannau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â chyrff cynrychioliadol allweddol a darparwyr dysgu eu hunain. Byddwn yn comisiynu gwerthusiad o'r polisi ar ôl pum mlynedd er mwyn ystyried y cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn sgil ei gyflwyno.

[4]Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2006/07, Cyhoeddiad Cyntaf SDR 68/2008

Y Prif Themâu Polisi Arfaethedig

Mae'r polisi wedi'i seilio ar bum prif thema:

(Adran 1) **Diffiniad** – pennu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae dysgu oedolion yn y gymuned yn ei olygu.

(Adran 2) **Ad-drefnu** – cryfhau'r gwaith cynllunio, ariannu a darparu strategol mewn perthynas â dysgu oedolion yn y gymuned.

(Adran 3) **Blaenoriaethau Ariannu ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned** – pennu blaenoriaethau clir ar gyfer y maes darpariaeth hwn.

(Adran 4) **Safonau Ansawdd** - cefnogi mynediad sydd wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal i ddarpariaeth o ansawdd ledled Cymru.

(Adran 5) **Cysylltiadau ar draws Agendâu Polisi** – datblygu'r maes dysgu oedolion yn y gymuned mewn cyd-destun polisi ehangach.

Adran 1: Diffiniad

1. Rydym yn cydnabod bod y maes dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu sy'n ei gwneud yn anodd ei ddiffinio'n gryno. Fodd bynnag, mae'r ffaith na cheir diffiniad y cytunir arno yn gyffredinol o ddysgu cymunedol yn gallu ei gwneud yn anodd cynllunio ac ariannu'r math hwn o ddarpariaeth mewn modd cyson. Mae hefyd yn cymhlethu ymdrechion i ddarganfod yn union pa weithgareddau dysgu a gynigir fel rhan o'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned.

2. Mae amrywiaeth o ddiffiniadau o 'ddysgu cymunedol' ar gael yn barod y gallwn adeiladu arnynt. Er enghraifft, mae Estyn wedi disgrifio dysgu oedolion yn y gymuned fel 'dysgu a ddarperir ar gyfer oedolion mewn lleoliadau cymunedol lleol ac a gynllunnir yn benodol i ymestyn i leoedd ac i bobl nad yw mathau eraill o ddysgu yn eu cyrraedd'[5]. Mae arolygiadau Estyn o'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned wedi ymdrin â'r meysydd dysgu canlynol: dysgu oedolion, addysg sylfaenol i oedolion, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, Cymraeg i Oedolion, a datblygu cymunedol. Gan fod agendâu strategol eraill a arweinir gan Lywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar Gymraeg i Oedolion a datblygu cymunedol, ni chânt eu cynnwys yn y polisi hwn. Fodd bynnag, mae angen eu hystyried wrth gynllunio darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned.

3. At hynny, mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) wedi nodi chwe phwrpas ar gyfer y dysgu y mae oedolion yn ymgymryd ag ef: Sgiliau Bywyd a Sgiliau Sylfaenol Planedig; Sgiliau ar gyfer Byw'n Annibynnol; Sgiliau Gwaith; Dysgu Camau Cyntaf; Datblygiad Personol a Lles; a Dysgu ar gyfer Dinasyddiaeth Weithredol a/neu Datblygu Cymunedol. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o ddisgrifio'r hyn y gall dysgu cymunedol ei olygu. Mae'n cynnwys yr amrywiaeth o ysgogiadau a blaenoriaethau ar gyfer datblygu sgiliau, yn yr ystyr ehangach, y mae dysgu cymunedol yn eu hymgorffori.

4. Cynigia'r polisi hwn y diffiniad canlynol o ddysgu oedolion yn y gymuned: ***darpariaeth ddysgu ar gyfer oedolion 19+ oed, a gynigir mewn lleoliadau cymunedol lleol ac nad yw'n canolbwyntio ar alwedigaeth benodol***. Golyga hyn y gall gynnwys, er enghraifft, darpariaeth sgiliau sylfaenol ond nid hyfforddiant a gynigir mewn rhaglenni â tharged mwy galwedigaethol. Mae hyn yn cynnig cyfle i lunio cysylltiadau â datblygiadau ehangach ym maes dysgu, megis dysgu fel teulu a datblygu sgiliau, gan barhau i ganolbwyntio ar addysg gyffredinol i oedolion ar yr un pryd. Amlinellir yr hyn y byddwn yn ei ariannu yn benodol o dan y pennawd hwn yn Adran 2: Cynllunio ac Ariannu.

C1. A YDYCH YN CYTUNO Â'R DIFFINIAD A GYNIGIWYD GENNYM O DDYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED AR GYFER Y POLISI?

[5]Ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion: Arolwg o arfer gorau, Estyn, 2003

Adran 2: Ad-drefnu

Cryfhau Prosesau Darparu

1 Ymateba'r polisi hwn i angen amlwg am fodel cynllunio a darparu y gellir ei gymhwyso'n gyson ledled Cymru. Bydd hyn o fudd i ddysgwyr, fydd â mynediad sydd wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal i ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Bydd hefyd o fudd i ddarparwyr, a fydd yn gallu gweithredu o fewn trefniadau mwy cyson a thryloyw ledled Cymru. Gosodir ein cynigion o fewn cyd-destun ein rhaglen ehangach ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

2. Ar hyn o bryd, ceir amrywiadau mawr ym mhatrwm y broses o ddarparu cyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Yn y gogledd, caiff y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ei darparu'n bennaf gan sefydliadau addysg bellach, ond rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn chwarae rôl strategol bwysig yn y broses o gynllunio darpariaeth ar draws y rhanbarth. Yn Ne Cymru, ar y llaw arall, mae awdurdodau lleol yn llawer mwy gweithgar o ran darparu'n uniongyrchol. Mae arnom angen gwell prosesau cynllunio, ariannu a darparu strategol mewn perthynas â dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn ein helpu i ddatblygu dull mwy cyson yng Nghymru. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i adlewyrchu anghenion penodol cymunedau lleol o hyd.

3. Mae angen i ni sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y broses o gynllunio'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn ei chynorthwyo i weithredu'n effeithiol o fewn y cyd-destun ehangach ar gyfer cynllunio cymunedol. Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddylanwadu ar brosesau cynllunio eraill, lle bo hynny'n briodol. Ar hyn o bryd, ceir amrywiaeth o fecanweithiau a fforymau cynllunio sy'n berthnasol i ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r rhain yn gweithredu ar lefelau amrywiol - lleol, rhanbarthol a chenedlaethol - ac yn cael effaith amrywiol ar y gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth hon. Maent yn amrywio o gynlluniau strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned a strategaethau cymunedol a gaiff eu llunio gan awdurdodau lleol i ddyfodiad y Byrddau Gwasanaethau Lleol a datblygiad parhaus ardaloedd y Cynllun Gofodol. Byddwn yn hybu synergedd rhwng elfennau'r cyd-destun cynllunio ehangach hwn lle bo hynny'n bosibl er mwyn cryfhau'r cysylltiadau â'r maes dysgu oedolion yn y gymuned a'u perthnasedd iddo.

4. Mewn cysylltiad â chynllunio, mae angen dull mwy strategol o ariannu dysgu oedolion yn y gymuned. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu cyllid rheolaidd ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i gynnig darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned gan ddefnyddio'r System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol.

5. Cydnabyddwn y rôl weithgar y mae sefydliadau yn y trydydd sector yn ei chwarae wrth ddarparu gweithgareddau dysgu yn y gymuned a hynny'n aml i ddysgwyr nad ydynt, am sawl rheswm, yn mynd i mewn i ddarpariaeth fwy prif ffrwd. Gellid dosbarthu nifer o'r gweithgareddau hyn yn weithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned, ond efallai nad ydynt yn cael eu hariannu drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol. Yn hytrach, gwelir yn aml fod y sefydliadau hyn yn cael eu hariannu'n bennaf drwy amrywiaeth o brosiectau, megis y cynllun peilot Cyfrifon Cymuned sy'n Dysgu. Mae'r polisi yn creu fframwaith a fydd yn caniatáu i sefydliadau'r trydydd sector chwarae rôl fwy strategol yn y broses o gynllunio a darparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned.

Cam gweithredu: Datblygu cysylltiadau strategol rhwng y gwaith o gynllunio dysgu oedolion yn y gymuned a'r fframwaith cynllunio cymunedol ehangach ar lefel leol a chenedlaethol - o 2009.

Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned

6. Cydnabyddwn fod trefniadau partneriaeth cryf ar gyfer darparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned wedi'u datblygu eisoes mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Nododd Adroddiad Blynyddol Estyn 2006/07 fod darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned wedi gwella'r modd y maent yn cydweithio, er enghraifft wrth gynllunio ac asesu ansawdd y ddarpariaeth[6]. Rydym nawr am adeiladu ar y datblygiad hwn mewn modd a fydd o fudd i bob oedolyn sy'n dysgu yn y gymuned. Yr opsiwn a gynigir gennym yw creu Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ledled Cymru er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth hon. Drwy wneud hynny, byddwn yn adeiladu ar enghreifftiau o arfer gorau a nodwyd mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o gylch gwaith Estyn ar gyfer 2007-08[7],ynghyd ag ymchwil a gomisiynwyd gan NIACE Dysgu Cymru[8].

7. Bydd pob Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gyfrifol am gynllunio ac ariannu'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn ardal ddaearyddol benodol. Rhagwelir y bydd y Partneriaethau'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector. Bydd hyn yn cynnig mwy o gyfle i ymestyn gwaith partneriaeth wrth ddarparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned. Disgwylir i'r partneriaethau adeiladu ar yr ethos a'r ddyletswydd o ran hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r sector cyhoeddus.

8. Rydym yn cynnig mai'r ffiniau daearyddol canlynol yw'r trefniant mwyaf effeithiol ar gyfer partneriaethau i gefnogi dull gweithredu mwy strategol:

- Caerdydd a'r Fro.
- De-ddwyrain Cymru.
- Cymoedd De Cymru (gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr).
- De Cymru (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot).
- De-orllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro).
- Canolbarth Cymru.
- Gogledd-ddwyrain Cymru.
- Canol Gogledd Cymru.
- Gogledd-orllewin Cymru.

9. Cynigiwyd y grwpiau hyn i dîm Adolygiad Webb a ddewisodd eu cyhoeddi yn ei adroddiad terfynol. Mae'r rhesymeg ar gyfer y trefniant hwn wedi'i seilio ar yr hyn sy'n ymarferol o ran cynllunio, ariannu a darparu. Mae hefyd yn caniatáu i ni adlewyrchu rhai o'r trefniadau partneriaeth presennol sydd wedi'u datblygu i ddarparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned.

[6]Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2006-07
[7]Cyfuno'r ffiniau mewn dysgu oedolion yn y gymuned, Estyn 2008
[8] Partnerships for planning and delivering Adult and Community Learning in Wales, NIACE Dysgu Cymru 2008

Ardaloedd Arfaethedig y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned



© Hawlfraint y Goron 2008

Seilir ar wybodaeth a ddarparwyd gan Lovell Johns Cyf. Rhydychen

Cartograffeg : Llywodraeth Cynulliad Cymru : ML/27/08.09/education

10. Byddwn yn rhoi canllawiau i Bartneriaethau ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu a'r blaenoriaethau polisi yr ydym am eu gweld yn cael sylw drwy ddysgu oedolion yn y gymuned. Yn eu tro, bydd y Partneriaethau'n nodi'r anghenion dysgu presennol yn y gymuned leol ac yn cynllunio'r ddarpariaeth yn unol â hynny. Byddant yn dyrannu cyllid dros dro ar y sail hon. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad eu cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ar draws Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'u bod yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn hefyd yn disgwyl i Bartneriaethau roi prosesau ar waith i ymgynghori â'u cymunedau lleol ynghylch y mathau o gyfleoedd dysgu y byddent am i'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned fynd i'r afael â hwy.

11. Disgwylir i Bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned weithredu'n effeithiol o fewn y cyd-destun cynllunio cymunedol ehangach. Bydd hyn yn golygu datblygu cysylltiadau strategol â sefydliadau a fforymau perthnasol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Lleol, yn enwedig lle bo aelodau'n perthyn i fwy nag un corff. Rydym am i'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ychwanegu gwerth at drefniadau presennol ac osgoi biwrocratiaeth ychwanegol ddiangen.

12. Mae potensial i ddatblygu cysylltiadau cryf â'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach presennol a arweinir gan sefydliadau addysg uwch. Bydd aelodaeth y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei hymestyn i sefydliadau addysg uwch lleol. Er na fydd y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gyfrifol am ddefnyddio arian ar gyfer dysgu cymunedol a ddarperir gan addysg uwch, bwriedir i'r model hwyluso gwell cysylltiadau strategol â'r sector hwn. Bydd cynnwys sefydliadau addysg uwch, ynghyd â darparwyr eraill, yn sicrhau cyfleoedd mwy cydgysylltiedig i ddysgwyr symud ymlaen at ddarpariaeth bellach pe baent yn dewis gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth brif ffrwd, lle bo hynny'n berthnasol.

13. Bydd y trefniadau newydd yn cefnogi trosolwg mwy strategol o weithgareddau dysgu cymunedol. Mae hyn yn cynnwys data mwy trylwyr ar yr hyn a gaiff ei gynnig fel dysgu oedolion yn y gymuned drwy'r Partneriaethau, a fydd yn gyfrifol am fonitro'r ddarpariaeth y maent yn ei chyflwyno a llunio adroddiadau arni.

14. Bydd pob Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gyfrifol am ddefnyddio dau faes ariannu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned:

(i) **Cynllun grant newydd ar gyfer dysgu anffurfiol**. Bydd hwn yn cefnogi gweithgareddau dysgu anffurfiol sydd heb eu hachredu ac nad ydynt yn gymwys i gael cyllid fformiwla (e.e. gwaith rhagarweiniol i baratoi unigolion ar gyfer dysgu).

(ii) **Cyllid rheolaidd drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol** (fel yr amlinellir ym mharagraff 4 o Adran 2). Bydd hwn yn cefnogi cyfleoedd dysgu achrededig.

15. Mae'r cynllun grant arfaethedig yn ymateb i angen a nodwyd am ddull mwy hyblyg o ariannu dysgu anffurfiol y tu hwnt i gyfyngiadau'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol. Mae'n cynrychioli cyfran o gyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i ddysgu oedolion yn y gymuned, yn hytrach na chyllid ychwanegol. Bydd yn rhoi mwy o gyfle i gefnogi'r math hwn o ddarpariaeth y mae cyfranogwyr ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yn galw amdano yn aml iawn.

Cyflwyno'r Trefniadau Newydd

16. Cydnabyddwn y bydd yr ymdrech hon i greu dull mwy unedig o ddarparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yn golygu newid sylweddol i nifer o ddarparwyr. Caiff y model hwn ei gyflwyno fesul cam, felly, dros gyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau yn ystod hydref 2009. Bydd hyn yn rhoi cyfle i brofi effeithiolrwydd y dull cyn y caiff ei gyflwyno'n ehangach. O ddechrau 2009 ymlaen, byddwn yn gwahodd cynigion gan bartneriaethau presennol i gymryd rhan yng ngham cyntaf y datblygiad. Byddwn yn comisiynu gwerthusiad parhaus o gam gyntaf y gweithgarwch i lywio datblygiadau yn y dyfodol. Ar ôl cwblhau'r cam hwn, caiff y broses o ariannu gweithgareddau drwy'r trefniadau newydd ei chyflwyno'n ehangach ledled Cymru o hydref 2011 ymlaen. Bydd y model yn parhau i gael ei adolygu o fewn cyd-destun unrhyw ad-drefnu ehangach o ran addysg a hyfforddiant sy'n deillio o'n cynigion i 'Drawsnewid y Ddarpariaeth Ddysgu ar gyfer Cymru'.

Cam gweithredu: Sefydlu cam cyntaf y broses o ddatblygu Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gynllunio a chomisiynu'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth hon - o 2009-10.

Cam gweithredu: Creu cynllun grant i gefnogi gwaith dysgu anffurfiol - i'w gyflwyno o 2010-11.

Cam gweithredu: Sefydlu trefniadau casglu data cadarn ar gyfer Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned - o 2009-10.

C2. AI'R BARTNERIAETH DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED YW'R MODEL GORAU AR GYFER CYNLLUNIO AC ARIANNU'R DDARPARIAETH DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED?

C3. A YDYCH YN CYTUNO Â NIFER A LLEOLIAD ARFAETHEDIG Y PARTNERIAETHAU DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED?

C4. SUT Y GALL Y PARTNERIAETHAU DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED ARFAETHEDIG WEITHIO'N FWYAF EFFEITHIOL Â PHARTNERIAETHAU A THREFNIADAU CYNLLUNIO PRESENNOL?

C5. A YDYCH YN CYTUNO Â'R NOD O GYNYDDU HYBLYGRWYDD ER MWYN CEFNOGI GWAITH DYSGU ANFFURFIOL DRWY'R CYNLLUN GRANT?

Adran 3: Blaenoriaethau ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Pwy y Byddwn yn eu Hariannu?

1. Mae ystod y gweithgareddau a gynigir ar hyn o bryd fel gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned yn adlewyrchu amrywiaeth y dysgwyr y mae'r ddarpariaeth hon yn eu denu. Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr sy'n gallu talu am gyrsiau hamdden ac sy'n barod i wneud hynny, yn ogystal â'r rhai y mae cymryd rhan mewn gwaith dysgu yn darparu ffordd o fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd ac allgáu cymdeithasol. Hefyd, mae angen i waith dysgu oedolion yn y gymuned adlewyrchu'r safbwyntiau newydd sy'n dylanwadu ar y broses o ddatblygu polisi yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys blaenoriaethau strategol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â dysgwyr hŷn, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a gweithwyr mudol, er enghraifft, yn ogystal â chyfleoedd Cymraeg a dwyieithog, y mae angen eu hystyried wrth gynllunio darpariaeth.

2. Fodd bynnag, mae angen egluro hefyd pwy a beth y byddwn yn eu hariannu fel dysgu oedolion yn y gymuned drwy'r polisi hwn. O dan y prif ddiffiniad o ddysgu oedolion yn y gymuned a gyflwynwyd gennym ym mharagraff 4 o Adran 1, byddwn yn ariannu darpariaeth drwy'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer dysgwyr 19+ oed sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf canlynol:

- Yn gynrychioladol o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys cymunedau daearyddol a chymunedau buddiant.
- Yn ymgymryd â darpariaeth a all eu galluogi i symud ymlaen at weithgareddau dysgu pellach neu gyflogaeth, boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol.
- Yn ymgymryd â darpariaeth sy'n cynnig buddiannau ehangach amlwg i unigolion neu gymunedau, megis cynhwysiant cymdeithasol neu well iechyd a lles.

Yr Hyn y Byddwn yn ei Ariannu

3. Byddwn yn rhoi canllawiau i'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar y blaenoriaethau y dylent geisio mynd i'r afael â hwy wrth gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth hon. Bydd hyn yn golygu canolbwyntio adnoddau cyhoeddus ar y ddarpariaeth y dangoswyd sy'n cael yr effaith fwyaf o ran cyflwyno buddiannau i'r unigolion a'u cymunedau. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, bydd y canllawiau'n sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng y blaenoriaethau ariannu ar gyfer y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys datblygu economaidd ac adfywio cymunedol. Mae angen eglurder o gofio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Bydd hyn yn sicrhau dull gweithredu mwy cyson a ddylai fod o fudd i unigolion a'u cymunedau ehangach.

4. Wrth gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir yn gyhoeddus, dylid ystyried tystiolaeth o angen a galw ymhlith dysgwyr, yn ogystal â chysylltiadau ag agendâu polisi eraill Llywodraeth y Cynulliad. Er enghraifft, mae gan y maes dysgu oedolion yn y gymuned gyfraniad penodol i'w wneud o ran ymgysylltu â grwpiau difreintiedig. Gwyddom fod y maes dysgu oedolion yn y gymuned hefyd yn darparu ffordd o ymgysylltu ag amrywiaeth o

ddysgwyr sy'n llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu mwy ffurfiol. Nododd Estyn fod oedolion yn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol drwy gymryd rhan mewn gwaith dysgu mewn lleoliadau cymunedol. At hynny, ceir amrywiaeth eang o dystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos y buddiannau ehangach sy'n deillio o gymryd rhan mewn gwaith dysgu cymunedol. Ar gyfer unigolion, gall y rhain gynnwys gwell iechyd a lles, gwell mynediad i wybodaeth a chymorth, a mwy o hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae angen cael rhagor o gadarnhad ynghylch hyn, lle bo hynny'n bosibl. O ganlyniad, dylai'r agwedd hon ar y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned gael ei hystyried yn flaenoriaeth benodol, boed yn arwain at gyflogaeth neu fuddiannau ehangach ar gyfer dysgwyr unigol.

5. Dylid rhoi blaenoriaeth hefyd i weithgareddau sy'n rhoi sgiliau i ddysgwyr i'w galluogi i symud ymlaen at ddysgu pellach neu gyflogaeth. Mae hyn yn darparu sail i adeiladu ar gysylltiadau â strategaethau presennol Llywodraeth y Cynulliad, megis *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri* a'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn*. Disgwylir i'r blaenoriaethau ariannu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned gael eu hadolygu yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol. Bydd y dull gweithredu hwn yn adeiladu ar drefniadau presennol ar gyfer cyflwyno cynlluniau strategol gan ddarparwyr.

6. O gofio'r ystyriaethau uchod, eir i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol yn y lle cyntaf:

- Darpariaeth ar lefel 2 neu'n is ac sydd hefyd yn bodloni un neu ragor o'r blaenoriaethau canlynol.
- Cyfleoedd i ymestyn cyfranogiad ymhlith grwpiau difreintiedig neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Sgiliau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill.
- Hyfforddiant datblygu fel y gellir symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach, ond nad yw'n cael ei gynnwys yn ein prif raglenni galwedigaethol.

Gall y ddarpariaeth hon fod yn anffurfiol neu'n ffurfiol, gall fod heb ei hachredu neu'n achrededig, a chaiff ei hariannu drwy'r cynllun grant neu'r cyllid fformiwla rheolaidd fel y bo'n briodol.

7. Yn ogystal â'r uchod, byddwn yn parhau i gefnogi cyrsiau Mynediad i AU. Mynediad i AU yw un o'r prif gymwysterau a llwybrau cynnydd ar gyfer y maes dysgu oedolion yn y gymuned, ac mae wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yng Nghymru.

8. Bydd gosod cyfrifoldeb ar bob Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gasglu data a llunio adroddiadau ar weithgareddau dysgu a ariennir yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar y darparwyr hynny sydd wedi'i chael yn anodd rheoli'r broses hon fel sefydliadau unigol. Bydd hefyd yn ein galluogi ni i gael gwell trosolwg o'r hyn a ariennir fel gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned, ac ym mhle y gwneir hynny. Cydnabyddwn fod cofnodi data ar gyfer cyrsiau byrdymor neu gyrsiau sydd ond yn rhedeg am ychydig oriau'r wythnos yn gallu bod yn broses feichus. Byddwn, felly, yn archwilio cyfleoedd i leihau'r baich o ran casglu data drwy gyflwyno fersiwn gryno o gofnod presennol Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer cyrsiau o'r fath.

Cam gweithredu: Archwilio cyfleoedd i gyflwyno trefniadau casglu data symlach ar gyfer cyrsiau byrdymor a rhai cyrsiau rhan-amser – o 2009.

Cam gweithredu: Cefnogi gwaith ymchwil pellach ar y buddiannau ehangach y gall y maes dysgu oedolion yn y gymuned eu cynnig i unigolion a chymunedau – o 2009 ymlaen.

C6. A YDYCH YN CYTUNO Â'R MEINI PRAWF A NODIR YM MHARAGRAFF 2 O ADRAN 3 Y BYDD YN RHAID I DDYSGWYR EU BODLONI ER MWYN CAEL EU HARIANNU DRWY DDYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED?

C7. A YDYCH YN CYTUNO Â'R BLAENORIAETHAU Y DYLAI'R MAES DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED GEISIO MYND I'R AFAEL Â HWY, A NODIR YM MHARAGRAFF 6 O ADRAN 3?

Diwallu Anghenion Dysgwyr

9. Nod y polisi yw sicrhau bod y maes dysgu oedolion yn y gymuned yn gallu ymateb yn hyblyg i anghenion amrywiol grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys helpu darparwyr ym maes dysgu oedolion yn y gymuned i nodi, a gweithio i oresgyn, rhwystrau sy'n atal dysgwyr penodol rhag dysgu, er enghraifft dysgwyr anabl. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cymryd camau i sicrhau mynediad i ddysgwyr anabl. Bydd ein canllawiau i Bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn egluro'r angen i sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

10. Lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn datblygu ymateb strategol mewn achosion lle bo'r data sydd ar gael yn tynnu sylw at broblemau neu anghyfartalwch penodol ym mhatrymau cyfranogiad dysgwyr. Er enghraifft, mae tua hanner yr holl unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned yn 50+ oed, ond mae'n bwysig cydnabod bod dysgwyr hŷn yn cynrychioli grŵp amrywiol, ac yn cynnwys y rhai sydd am feithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith, yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu am resymau mwy cyffredinol a chymdeithasol. At hynny, dengys data cyfranogiad cyffredinol ar gyfer y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a gynigiwyd drwy awdurdodau lleol ar gyfer 2006/07, bod bwlch mawr yn bodoli rhwng dynion a menywod, gyda 73% o'r cyfranogwyr yn fenywod. Mae'r bwlch rhwng dynion a menywod yn cynyddu hyd at 65 oed, ac ar ôl hynny mae'n lleihau ond mae'n dal i fod yn gymharol fawr. Mae angen i ni ystyried y rhesymau dros y bwlch hwn a sicrhau bod digon o gyfleoedd dysgu ar gael sy'n berthnasol i ddysgwyr gwrywaidd ac sydd o ddiddordeb iddynt.

11. Mae rhwystrau iaith o ran hyfedredd yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn parhau i fod yn broblem ar gyfer ffoaduriaid, ceiswyr lloches, gweithwyr mudol a chymunedau o leiafrifoedd ethnig sydd wedi ymsefydlu. Mae dysgu Cymraeg neu Saesneg yn allweddol i sicrhau cydlyniant cymunedol. Dylid targedu darpariaeth ieithyddol fel ei bod yn diwallu anghenion lleol a gallai'r maes dysgu oedolion yn y gymuned fod mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Dylid ystyried anghenion sy'n gysylltiedig â Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill fel rhan o drefniant cynllunio lleol ehangach i sicrhau cysondeb ag anghenion cymunedol.

12. Mae agenda strategol arall yn canolbwyntio ar y fenter Cymraeg i Oedolion lle caiff yr iaith Gymraeg ei dysgu i oedolion. Fodd bynnag, mae'r mater o ddarpariaeth Gymraeg o fewn y maes dysgu oedolion yn y gymuned yn bwysig iawn ledled Cymru, yn enwedig yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gogledd a'r Gorllewin lle mae'r Gymraeg yn dal i fod yn iaith gymunedol, ond nid yn unig yn yr ardaloedd hynny. Ni cheir llawer o dystiolaeth i ddangos bod dull gweithredu strategol mewn perthynas â gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn y gymuned ar waith mewn sawl rhan o Gymru, ac mae'r broses o ddatblygu darpariaeth o'r fath yn dameidiog. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd bod prinder ymarferwyr yn y maes dysgu oedolion yn y gymuned sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae rhagor o waith ymchwil wedi'i gomisiynu i gael ystadegau cywir ynghylch y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn y sector dysgu gydol oes i gyd. Bydd hefyd angen cynnal dadansoddiad pellach o anghenion a galw ymhlith dysgwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fel sail i waith datblygu yn y dyfodol. Mae prosiectau peilot sydd ar waith ar hyn o bryd yn y Gogledd a'r De yn debygol o ddangos bod peth galw cudd am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg nad yw'n cael ei ddiwallu mewn nifer o ardaloedd. Bydd dull mwy strwythuredig ac ymatebol o ddarparu cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei ddatblygu.

13. Cydnabyddwn hefyd yr angen i gefnogi cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen at ffurfiau eraill o ddysgu neu, lle bo hynny'n berthnasol, cyflogaeth. Bydd gan y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o helpu dysgwyr i wneud cynnydd o'r fath drwy ddarparu dulliau cyflwyno mwy cydgysylltiedig a rhoi cyfleoedd iddynt symud i ddarpariaeth fwy prif ffrwd neu ddarpariaeth uwch, lle bo hynny'n briodol.

14. Gallai dilyniant ar ôl dysgu gynnwys cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol a gweithgareddau cymunedol, yn ogystal â dal swyddi cyflogedig. Er ein bod yn cydnabod y buddiannau ehangach y gall y maes dysgu oedolion yn y gymuned eu cyflwyno i ddysgwyr, rydym hefyd am annog y rhai sy'n dymuno gwneud hynny i symud ymlaen i ddilyn cyrsiau eraill a allai, er enghraifft, gyflwyno mwy o her iddynt neu ddarparu cyfleoedd i ennill sgiliau neu gymwysterau penodol. Caiff effaith y Partneriaethau wrth gefnogi dilyniant o'r fath ei hategu drwy amrywiaeth o brosesau, gan gynnwys datblygu meincnodau ar gyfer y sector a monitro'r modd y mae'r Partneriaethau'n cyflwyno'r ddarpariaeth. Caiff ei chynnwys hefyd yn y gwerthusiad pum mlynedd a gynhelir o'r polisi i gyd.

15. At hynny, cydnabyddwn y rôl y gall e-ddysgu ei chwarae wrth wella ansawdd ac argaeledd y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer nifer o ddysgwyr. Byddwn, felly, yn adeiladu ar waith Canolfan Gymorth Ranbarthol Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth a Dysgu Cymunedol Cymru i ddatblygu strategaeth e-ddysgu ar gyfer y sector dysgu oedolion yn y gymuned[9].
Cam gweithredu: Cefnogi a hybu cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen o weithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned i ddarpariaeth arall – O 2010.

[9] Mae Canolfan Gymorth Ranbarthol Cymru yn un o 13 o ganolfannau o'r fath yn y DU. Mae'n cynorthwyo'r broses o ddatblygu e-ddysgu a Thechnoleg Gwybodaeth Dysgu mewn addysg bellach, dosbarthiadau chwech, y sector dysgu oedolion a dysgu cymunedol ac agweddau ar addysg uwch. Dysgu Cymunedol Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n darparu cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned.

Cam gweithredu: Cyflwyno prosesau meincnodi ar gyfer darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned – o 2009.

Cam gweithredu: Adeiladu ar gyfleoedd i wella rôl e-ddysgu wrth gyflwyno cyfleoedd o ran dysgu oedolion yn y gymuned – o 2009.

Cam gweithredu: Cefnogi a hybu darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned sydd o ddiddordeb i ddysgwyr gwrywaidd a benywaidd – o 2009.

Cam gweithredu: Datblygu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgwyr sydd am gael cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei gynnwys hefyd ym mholisi addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgwyr o bob oed – o 2009.

C8. A OES GRWPIAU PENODOL O DDYSGWYR, NAD YDYNT WEDI'U CRYBWYLL YMA, Y DYLAI'R POLISI EU HYSTYRIED?

Cymorth Ariannol i Ddysgwyr

16. Gall cymorth ariannol i oedolion sy'n dysgu yn y gymuned ddod o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y Cyfrif Dysgu Unigol. Mae'r cymorth hwn yn dibynnu ar statws cyflogaeth yr unigolyn a pherthnasedd y cwrs dysgu a ddewiswyd ganddo i'w swydd bresennol, er enghraifft.

17. Yn achos dysgwyr sy'n gallu talu am y ddarpariaeth a ddewiswyd ganddynt, mae'n rhesymol disgwyl i ddarparwyr gyflwyno ffioedd ar gyfer cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned sy'n gymesur â'r costau a lefel y galw. Bydd hyn yn ategu'r gefnogaeth gyhoeddus i'r ddarpariaeth hon ac yn caniatáu i adnoddau gael eu targedu'n fwy strategol yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn hybu cysondeb ym mhob un o'r darparwyr er mwyn sicrhau y caiff ffioedd eu pennu ar lefelau rhesymol, nad ydynt yn rhoi dysgwyr mewn rhai ardaloedd daearyddol o dan anfantais o gymharu ag ardaloedd eraill. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweithio o fewn y broses ehangach o ddatblygu polisi cyfraniadau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.

Gweithio'n Strategol gyda Ffynonellau Cyllid

18. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth ar gyfer y maes dysgu oedolion yn y gymuned a'r gwaith o'i ddatblygu drwy amrywiaeth o ffrydiau ariannu eraill a fydd yn syrthio y tu allan i gylch gwaith y Partneriaethau. Yr amlycaf o blith y rhain yw:

- Cymorth ar gyfer gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned drwy sefydliadau addysg uwch, a gaiff ei ddosbarthu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn enwedig y mentrau Ymgyrraedd yn Ehangach ac Ehangu Mynediad.
- Cymunedau yn Gyntaf (ac yn fwy diweddar, Cymunedau Nesaf), sef rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

- Cymunedau@Ei Gilydd, a lansiwyd ym mis Ionawr 2006 i helpu cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i gael gafael ar dechnolegau newydd. Fe'i gweinyddir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.

19. Mae angen i ni adeiladu ar y cysylltiadau strategol â gweithgareddau datblygu cymunedol, yn enwedig y rhai a arweinir drwy Cymunedau Nesaf. Dylai'r diffiniad o ddysgu oedolion yn y gymuned, sy'n sail i'r polisi hwn, ddarparu mwy o eglurder ynghylch y ffiniau rhwng y ddarpariaeth a ariennir gan APADGOS a'r ddarpariaeth a gefnogir drwy'r fenter Cymunedau Nesaf, ymhlith eraill.

20. Darperir cyllid ychwanegol ar gyfer gweithgareddau dysgu cymunedol drwy amrywiaeth o ffynonellau eraill, er enghraifft cyllid gan y Loteri a'r Ganolfan Byd Gwaith, sydd ill dwy â'u cylch gwaith penodol eu hunain. Byddwn yn archwilio'r potensial i greu mwy o synergedd rhwng y meysydd cyllid hyn sydd ar wahân.

21. Byddwn hefyd yn archwilio'r cyfleoedd i ddarparu cyllid mwy cynaliadwy dros dymor hwy, y tu hwnt i brosiectau penodol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i'r ffordd orau o gael a defnyddio cyllid Ewropeaidd er mwyn darparu gweithgareddau ym maes dysgu oedolion yn y gymuned a gweithgareddau datblygu cymunedol mewn modd strategol. Mae'n cynnwys defnyddio'r cyllid a ddarperir drwy bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned fel cyllid cyfatebol i gefnogi datblygiadau mwy strategol ar raddfa fawr ar gyfer y maes darpariaeth hwn. Mae hefyd yn golygu cynorthwyo darparwyr i gydweithio'n strategol i ddiwallu anghenion ehangach dysgwyr, megis anghenion cymorth ychwanegol neu ofal plant, er mwyn galluogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau o'r fath i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned.

Cam gweithredu: Datblygu dull integredig o gael cyllid Ewropeaidd i gefnogi gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned – o 2009.

Cam gweithredu: Monitro effeithiolrwydd y ffynonellau presennol o gymorth i ddysgwyr – o 2009.

Cam gweithredu: Cyhoeddi canllawiau ar bennu ffioedd ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned – erbyn 2009.

C9. BETH YW'R FFORDD ORAU O GREU MWY O SYNERGEDD RHWNG MEYSYDD GWAHANOL O GYMORTH AR GYFER Y MAES DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED?

Adran 4: Safonau Ansawdd

Adeiladu ar Dystiolaeth Gyfredol

1. Bwriedir i'r polisi hwn ategu gwelliannau cyson yn ansawdd y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Drwy wneud hynny, byddwn yn adeiladu ar amrywiaeth o gryfderau a nodwyd eisoes yn arolygiadau Estyn a'n Hadolygiadau ein hunain o Berfformiad Darparwyr[10]. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys: safonau da yn gyffredinol o ran cyflawniad dysgwyr; cydweithio â darparwyr ac asiantaethau eraill, ac ymatebolrwydd i anghenion grwpiau penodol, megis dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Byddwn yn cyflwyno dull cydgysylltiedig o hybu a datblygu enghreifftiau presennol o arfer gorau.

2. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag ystod o feysydd y nodwyd bod angen eu gwella. Mae'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod dysgwyr ar gyrsiau sydd heb eu hachredu yn cael cymorth i gofnodi eu cynnydd; hybu defnydd effeithiol o adnoddau ar gyfer Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Thechnoleg Gwybodaeth Dysgu (TGD); yr angen i gryfhau prosesau cynllunio a rheoli; a sicrhau bod prosesau hunanasesu yn gynhwysfawr, gyda thargedau clir ar gyfer gwella.

3. Gwelodd arolwg Estyn o arweiniad a rheolaeth strategol ym maes dysgu ôl-16 yn 2007 fod gan y rhan fwyaf o arweinwyr a rheolwyr ym maes dysgu cymunedol gynlluniau clir ar gyfer eu sefydliadau a'u bod yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Yr her fwyaf sy'n eu hwynebu yw gweithio gydag unigolion sy'n perthyn i ddarparwyr eraill i sicrhau y defnyddir cyllid cyhoeddus ar y cyd er mwyn cael gwell gwerth am arian. Bydd cyflwyno'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cryfhau gwaith cynllunio strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ar lefel ardal gyfan ac yn sicrhau y caiff adnoddau eu cysylltu â blaenoriaethau penodol. Caiff rôl y Partneriaethau o ran cryfhau prosesau hunanasesu cydgysylltiedig a chynllunio ar gyfer gwelliant eu datblygu yn y tymor hwy hefyd.

Cam gweithredu: Cefnogi gwell safonau ansawdd ar gyfer darpariaeth yng nghyd-destun y Fframwaith Effeithiolrwydd Ansawdd - o 2009.

Cam gweithredu: Cefnogi defnydd mwy effeithiol o Dechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Thechnoleg Gwybodaeth Dysgu (TGD) wrth gyflwyno darpariaeth ym maes dysgu oedolion yn y gymuned – o 2009.

Cam gweithredu: Cryfhau trefniadau hunanasesu ar gyfer darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned – o 2009.

Mesur Gwaith Dysgu Anffurfiol

4. Cydnabyddwn y gall credydau fod yn adnodd pwysig o ran gwobrwyo a gwneud cynnydd personol a mesur cyflawniad. Dylai unrhyw gyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gael eu

[10] Cyflwynwyd yr Adolygiadau o Berfformiad Darparwyr yn ystod hydref 2005 i asesu ansawdd, safonau a pherfformiad ym maes dysgu ôl-16 yng Nghymru. Cynhelir yr Adolygiad o Berfformiad Darparwr gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) fel rhan o'i chyfrifoldeb statudol i sicrhau bod gan bobl ifanc ac oedolion yng Nghymru fynediad i ddarpariaeth dysgu o ansawdd digonol.

cydnabod yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Dylai fod hawl gan bob dysgwr i gael credyd am ei gyflawniad, os yw'n dymuno hynny. Dylai unrhyw gyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned nad ariennir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gael eu cydnabod yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, lle bo hynny'n bosibl. Ein nod yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i ddysgwyr ddefnyddio prosesau cronni credydau i gydnabod eu cyflawniad unigol tuag at gynnydd a, lle bo hynny'n bosibl, tuag at gyflawni cymwysterau perthnasol neu raglenni dysgu cydnabyddedig.

5. Cydnabyddwn y rôl y mae dysgu anffurfiol yn ei chwarae fel agwedd allweddol ar y ddarpariaeth ym maes dysgu oedolion yn y gymuned. Gwyddom y gall dysgu oedolion yn y gymuned helpu unigolion sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu, dechrau meithrin y sgiliau bywyd a fydd yn cynyddu eu hyder, yn datblygu eu gwybodaeth ac yn eu helpu i baratoi i gymryd rhan mewn gwirfoddoli, cyflogaeth neu ddysgu mwy ffurfiol. Bydd cadarnhau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer dysgu anffurfiol drwy gyflwyno'r cynllun grant yn cynyddu'r cyfleoedd i ymestyn cyfranogiad gan ddysgwyr o'r fath. Mae'r maes darpariaeth hwn yn darparu ffordd o ymgysylltu ag amrywiaeth o ddysgwyr sy'n llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu mwy ffurfiol. Rydym wedi archwilio gwahanol ddulliau o nodi a chefnogi anghenion o ran dysgu anffurfiol drwy'r cynllun peilot Cyfrif Cymuned sy'n Dysgu[11]. Rydym nawr yn ceisio adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu wrth weithredu'r polisi hwn.

6. Awgryma tystiolaeth gan Estyn a'n Hadolygiad ein hunain o Berfformiad Darparwr bod angen mwy o gysondeb wrth fesur enillion ar gyfer dysgwyr sy'n ymgymryd â dysgu anffurfiol. Felly fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cynllun grant ar gyfer dysgu anffurfiol, byddwn yn cyflwyno dull mwy cyson o fesur canlyniadau ar gyfer dysgwyr yn y math hwn o ddarpariaeth. Bydd hyn o fudd i ddysgwyr, a fydd yn gallu mesur eu cynnydd yn well a thrwy hynny gymryd mwy o ran yn eu gwaith dysgu. Bydd hefyd yn cynorthwyo darparwyr a Llywodraeth y Cynulliad i fonitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon.

7. Bydd y dull hwn hefyd yn helpu darparwyr i fodloni'r trothwyon ansawdd a bennwyd gan Estyn yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin, yn enwedig y Cwestiynau Allweddol canlynol:

1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?
3. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn diwallu anghenion a buddiannau disgyblion a'r gymuned ehangach?
4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

8. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan NIACE Dysgu Cymru wrth ddatblygu Pecyn Adnoddau Gwerth Ychwanegol, sy'n defnyddio'r model RARPA[12] presennol. Mae hwn yn cynnwys pum cam allweddol sy'n cynrychioli arfer da ym maes rheoli gwaith dysgu sydd heb ei achredu, ac y gellir ei gysylltu'n uniongyrchol â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin.

9. Rydym wedi comisiynu NIACE Dysgu Cymru i gynnal digwyddiadau rhannu gwybodaeth ynghylch y Pecyn Adnoddau Gwerth Ychwanegol. Byddwn yn annog

[11] Mae adroddiadau gwerthuso terfynol y prosiect Cyfrif Cymuned sy'n Dysgu ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[12] Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad

pob darparwr sy'n cael cyllid grant ar gyfer dysgu anffurfiol i roi trefniadau ar waith i fesur canlyniadau dysgwyr. Mae'n ofynnol i'r rhain arddangos cysondeb â'r pum cam y mae'r model RARPA wedi'i seilio arnynt. Dylent ddarparu sail ar gyfer asesu effaith gwaith dysgu sydd heb ei achredu ar unigolion a, lle bo hynny'n berthnasol, ar eu cymuned ehangach. Y pum cam yw:

(i) Datganiad clir o nodau'r cwrs.

(ii) Asesiad cychwynnol o fannau cychwyn ac anghenion y dysgwyr.

(iii) Trafod i nodi amcanion sy'n ddigon heriol.

(iv) Asesu ffurfiannol, gwirio cynnydd a rhoi adborth.

(v) Cydnabyddiaeth derfynol o gynnydd, cofnodi a dathlu cyflawniad.

Cam gweithredu: Gweithio gyda Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru i adeiladu ar gyfleoedd i gydnabod cyflawniad drwy ddyfarnu credydau ym maes dysgu oedolion yn y gymuned – o 2009.

Cam gweithredu: Cyflwyno dull mwy cyson o fesur cynnydd ym maes dysgu anffurfiol – o 2009.

C10. A YDYCH YN CYTUNO Â'R ANGEN AM DDULL MWY CYSON O FESUR CYNNYDD A CHYFLAWNIAD YM MAES DYSGU ANFFURFIOL?

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

10. Yn 2005/06, comisiynwyd NIACE Dysgu Cymru gennym i nodi'r prif rolau a chwaraeir gan reolwyr, tiwtoriaid a staff cymorth ym maes dysgu oedolion yn y gymuned, a nodi cyfleoedd i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus ar bob lefel. Daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad bod effeithiolrwydd rhwydweithiau Dysgu Cymunedol wrth gynllunio, rheoli a chyflawni datblygiad proffesiynol parhaus yn amrywio'n sylweddol. Ni chesglir data yn gyson mewn nifer o rwydweithiau ac ni cheir llawer o gyfleoedd i wella cymwyseddau ym maes rheoli prosiect, pennu costau cwrs, marchnata ac adolygu'r system ansawdd.

11. Er bod cyfleoedd datblygu staff ar gael drwy amrywiaeth o ddarparwyr, mae llawer o'r hyfforddiant yn ad hoc, yn cael ei gynnal wrth i staff weithio, yn canolbwyntio ar faterion lleol a heb ei achredu. Mae'n amlwg bod angen i bob aelod o staff, yn enwedig tiwtoriaid a rheolwyr canol, feddu ar sgiliau amrywiol. Yn benodol, mae bellach yn hanfodol i staff ym maes dysgu oedolion yn y gymuned feistroli cymwyseddau o ran gweinyddu, rheoli ac ansawdd a dulliau gweithredu entrepreneuraidd.

12. Rydym wedi cefnogi nifer o brosiectau unigol ar gyfer gwella ansawdd a datblygu staff drwy ein rhaglen Buddsoddi mewn Ansawdd, a grëwyd i wella safonau a pherfformiad ymhlith darparwyr dysgu ôl-16 a byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd eraill i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth staff ar bob lefel ym maes dysgu oedolion yn y gymuned, gan gynnwys darparu hyfforddiant i diwtoriaid sy'n siarad

Cymraeg wella eu sgiliau iaith. Byddwn hefyd yn ystyried sut y byddwn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu nodi a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n codi yng nghyd-destun dysgu oedolion yn y gymuned.

Cam gweithredu: Archwilio ffyrdd o wella cyfleoedd o ran datblygu staff ar gyfer ymarferwyr ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru, gan gynnwys ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg.

C11. AI'R RHAIN YW'R CAMAU GWEITHREDU CYWIR I WELLA ANSAWDD YM MAES DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED? A DDYLEM GYNNWYS UNRHYW GAMAU GWEITHREDU ERAILL?

Adran 5: Datblygu Cysylltiadau ar draws Agendâu Polisi

1. Mae'r polisi ar ddysgu oedolion yn y gymuned yn adlewyrchu nod *Creu'r Cysylltiadau*, sef sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn modd mwy cydgysylltiedig i ddarparu gwasanaethau effeithiol i ddinasyddion. Yn unol ag ysbryd *Creu'r Cysylltiadau*, bydd y gwerthusiad o'r polisi yn ystyried a yw gwasanaethau wedi gwella ar gyfer dysgwyr ar lawr gwlad.

2. Gall y sector dysgu oedolion yn y gymuned feddu ar gysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o strategaethau a mentrau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru y tu hwnt i ddatblygu cymunedol, a dylai feddu ar gysylltiadau o'r fath. Er enghraifft, cydnabyddir bod gan y sector dysgu oedolion yn y gymuned rôl allweddol i'w chwarae o ran cyfrannu at flaenoriaethau polisi megis cynhwysiant cymdeithasol ac iechyd a lles. Felly mae cyfleoedd ar gael i gefnogi'r broses o ddatblygu agendâu polisi eraill y gellir cysylltu'r maes dysgu oedolion yn y gymuned yn agos â hwy. Dylai'r polisi hwn fod yn fodd o ganolbwyntio ar y rôl hon a'i datblygu mewn modd mwy strwythuredig a strategol.

3. Felly mae angen gwell gwaith cynllunio ac integreiddio rhwng polisïau a mentrau cysylltiedig Llywodraeth y Cynulliad, megis Cymunedau Nesaf, *Iaith Pawb* a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol. Mae'r cynllun olaf hwn, fel cynllun gorfodol, yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad gefnogi gwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru. Oherwydd natur y ddarpariaeth a gynigir gan y sector gwirfoddol, mae'n chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gyflwyno cyfleoedd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned.

C12. A OES UNRHYW FEYSYDD PENODOL LLE DYLID DATBLYGU CYSYLLTIADAU Â DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED?

4. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen bolisi derfynol. Bydd cynllun gweithredu yn dilyn y ddogfen derfynol a fydd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i roi'r dull newydd o ran dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru ar waith. Rydym yn gwahodd eich ymatebion i'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen. Gellir lawrlwytho ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn http://newydd.cymru.gov.uk/ymgynghori neu gellir anfon un ar gais.

Atodiad A

Crynodeb o'r Porth i Bolisïau

Mae'r canlyniadau isod yn cynrychioli canlyniadau cytûn y ddogfen ymgynghori hon a brofwyd yn erbyn Adnodd Integreiddio'r Cynulliad a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, CyMAL, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, NIACE Dysgu Cymru ac Estyn*. Mae'r cynrychiolwyr hynny'n cytuno bod hwn yn drosolwg cywir o'u sylwadau cyfunol.*

Allwedd: **T** - Tanseilio; **N** – Niwtral; **P** - Potensial; **G** – Gweddol; **D** – Da

Ymrwymiad Cymru'n Un	***Cyfraniad Cyffredinol***					***Eglurhad***
1. Dyfodol Iach	**T**	**N**	**P**	**G**	**D**	Credir bod ganddo'r potensial i gyfrannu, gyda lle i gryfhau gwaith llywio o ran y buddiannau iechyd sy'n gysylltiedig â dysgu a chysylltiadau ag agenda iechyd Llywodraeth y Cynulliad.
			X			
2. Cymdeithas Lewyrchus	**T**	**N**	**P**	**G**	**D**	Ystyriwyd bod ganddo'r potensial i gyfrannu, gan gryfhau cysylltiadau â'r Strategaeth Sgiliau o ganlyniad i hynny. Mae lle i ddatblygu cysylltiadau mwy penodol â Chymunedau Nesaf.
			X			
3. Cymunedau Byw	**T**	**N**	**P**	**G**	**D**	Potensial i gyfrannu, ond angen ystyried cymunedau buddiant a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ceir cysylltiad uniongyrchol ag unigolion sy'n symud ymlaen i gyflogaeth gymunedol, gwaith gwirfoddol a busnesau cymunedol.
			X			
4. Dysgu i Fyw	**T**	**N**	**P**	**G**	**D**	Ystyrir ei fod yn gwneud cyfraniad da, sy'n cysylltu ag agendâu ehangach y Llywodraeth megis iechyd a lles, anweithgarwch economaidd a chynhwysiant.
					X	
5. Cymdeithas Deg a Chyfiawn	**T**	**N**	**P**	**G**	**D**	Cyfraniad gweddol. Dylai'r polisi adlewyrchu'r agenda gynhwysiant. Mae'n cynrychioli cyfle i ddatblygu cysylltiadau posibl rhwng Adrannau a datblygu agenda Creu'r Cysylltiadau. Dylid archwilio cyfleoedd i ddatblygu a chryfhau llais y dysgwr pan gaiff ei weithredu.
				X		
6. Amgylchedd Cynaliadwy	**T**	**N**	**P**	**G**	**D**	Cyfraniad niwtral. Ceir cysylltiad â materion yr ymwneud â chynaliadwyedd drwy brosesau caffael a chomisiynu ar gyfer y cwricwlwm dysgu oedolion yn y gymuned.
		X				
7. Diwylliant Cyfoethog ac Amrywiol	**T**	**N**	**P**	**G**	**D**	Cyfraniad gweddol. Mae angen sefydlu dull gweithredu cydlynol gyda rhaglen Porth i Ddysgu CyMAL.
				X		